Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gonsortiwm Grŵp Llandrillo Menai
# Ffordd Llandudno
# Llandrillo-yn-rhos
# Bae Colwyn
# LL28 4HZ

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 24/02/2014**

## Cyd-destun

Sefydlwyd Consortiwm Llandrillo yn 2010 ac roedd yn cynnwys Coleg Llandrillo, Hyfforddiant Arfon Dwyfor (HAD) a Hyfforddiant Gogledd Cymru (HGC). Ar ôl uno Coleg Llandrillo a Choleg Menai, ymunodd Coleg Menai â'r consortiwm yn 2012. Galwyd y consortiwm yn Gonsortiwm Grŵp Llandrillo Menai ar ôl hynny. Y flwyddyn lawn gyntaf o ddata ar gyfer y consortiwm newydd oedd 2012-2013. Mae gan yr holl sefydliadau cyfansoddol statws cyfartal yn y consortiwm ac mae ganddynt gynrychiolaeth ar yr holl grwpiau rheoli.

Mae'r tri sefydliad, Grŵp Llandrillo Menai, HAD a HGC yn parhau i fod yn gyrff ar wahân ond maent yn gweithio gyda'i gilydd ledled Gogledd Orllewin Cymru yn bennaf. Fodd bynnag, mae gan y consortiwm ddarpariaeth sylweddol yng Nghanolbarth a De Cymru hefyd. Mae'r contract presennol ar gyfer cyflwyno dysgu yn y gwaith (DYYG) yn werth £10.9 miliwn.

Mae'r consortiwm yn cyflwyno hyfforddiant prentisiaethau yn y meysydd canlynol:

- Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid
- Y Celfyddydau, y Cyfryngau a Chyhoeddi
- Busnes, Gweinyddu a'r Gyfraith
- Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig
- Addysg a Hyfforddiant
- Peirianneg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu
- Gwallt a Harddwch
- Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal
- Lletygarwch ac Arlwyo
- Hamdden, Teithio a Thwristiaeth
- Manwerthu a Gwasanaethau Cwsmeriaid
- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Mae'r consortiwm yn cynnig hyfforddiant hyfforddeiaethau yn y meysydd canlynol hefyd:

- Iechyd / Gofal Plant
- Ymddiriedolaeth y Tywysog
- Trin Gwallt
- Lletygarwch a Manwerthu
- Chwaraeon
- Peirianneg

Adeg yr arolygiad, mae tua 3,000 o ddysgwyr yn y gwaith yn ymgymryd â hyfforddiant ar raglenni a ariennir gan Lywodraeth Cymru (LlC) yn y consortiwm.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y darparwr | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r darparwr | Rhagorol |

### Perfformiad presennol

At ei gilydd, mae'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cyflawni eu fframweithiau cymhwyster llawn arnynt yn dda. Dengys data nas gwiriwyd bod cyfraddau cyrhaeddiad yn parhau i wella ar draws bron pob maes rhaglen. Mae dysgwyr yn mwynhau eu dysgu ac yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylcheddau hyfforddi.

Mae ansawdd yr addysgu, yr hyfforddi a'r asesu yn dda ar y cyfan, ac fe geir ambell enghraifft o arfer ragorol. At ei gilydd, mae ansawdd y gofal, cymorth ac arweiniad yn dda a chaiff dysgwyr eu cynorthwyo'n dda i'w helpu i ddatblygu eu haddysg a'u medrau cyflogadwyedd.

Gall dysgwyr fanteisio ar ystod eang iawn o raglenni hyfforddi ac adnoddau a chyfleusterau da i ragorol ar gyfer hyfforddiant yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith.

Mae uwch reolwyr yn darparu cyfeiriad strategol effeithiol ac maent yn gosod targedau clir ar gyfer cyflwyno dysgu yn y gwaith (DYYG).

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r Consortiwm yn rhagorol oherwydd:

- mae gan arweinwyr a rheolwyr strategol ffocws clir a strategaeth gynhwysfawr ar gyfer gweithio'n effeithiol fel consortiwm;
- mae gan uwch dîm rheoli'r consortiwm weledigaeth glir ac mae'n deall yn llawn beth sydd ei angen i gyflwyno hyfforddiant yn rhagorol;
- mae perthnasoedd gweithio rhagorol ac effeithiol gyda phartneriaid y consortiwm, cyflogwyr a'r gymuned ehangach;
- mae llawer o ddidwylledd, ymddiriedaeth a chydraddoldeb rhwng partneriaid, sy'n gyrru'r ymdrech am welliant parhaus;
- mae'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cyflawni eu fframweithiau hyfforddiant arnynt ac yn ennill cymwysterau eraill yn parhau i wella ac maent uwchlaw meincnodau cenedlaethol bron ym mhob rhaglen ddysgu;
- cynigir cwricwlwm eang iawn sy'n cynnwys rhaglenni arloesol ar gyfer tri chyflogwr cenedlaethol;
- mae llinellau cyfathrebu effeithiol iawn ar draws holl bartneriaid allweddol y consortiwm a'i randdeiliaid; ac
- mae'r consortiwm yn buddsoddi mewn amgylcheddau ac adnoddau dysgu o ansawdd uchel ar gyfer dysgwyr.

## Argymhellion

A1 Gwella'r cyfraddau y mae ymadawyr yn cyflawni eu fframweithiau arnynt ac yn ennill cymwysterau eraill

A2 Cynnwys targedau llythrennedd a rhifedd penodol tymor byr mewn adolygiadau

A3 Gwneud yn siŵr bod systemau ansawdd yn effeithio'n llawn ar yr ymdrech i godi safonau pob dysgwr

A4 Ymestyn yr arfer ragorol ddwyieithog ar draws yr holl ddarpariaeth

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Mae Estyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r consortiwm fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad ac anfon y cynllun gwella i'r Adran Addysg a Sgiliau fel rhan o'r cylch cynllunio gwelliant rheolaidd.

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

At ei gilydd, roedd y cyfraddau y gwnaeth dysgwyr gwblhau eu rhaglen arnynt ac ennill eu cymhwyster fframwaith yn 2011-2012 ychydig uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r cyfraddau llwyddo wedi gwella dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac mae data nas gwiriwyd ar gyfer 2012-2013 yn dangos rhagor o welliant sylweddol. Mae'r cyfraddau y mae dysgwyr ar hyfforddeiaethau a rhaglenni paratoi ar gyfer gwaith yn cyflawni yn debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol yn gyffredinol. Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da o un lefel i'r nesaf. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cwblhau eu cymwysterau erbyn eu dyddiad targed. Mae'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cwblhau ac yn ennill eu cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru (SHC) arnynt yn debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol, neu'n uwch, ac yn cyd-fynd â chyfraddau llwyddo'r fframwaith yn gyffredinol.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ar raglenni presennol yn gwneud cynnydd da. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr a arsylwyd yn dangos medrau ymarferol a theori da sydd weithiau'n rhagorol. Er enghraifft, fe wnaeth dau ddysgwr sy'n dilyn rhaglen reoli lefel 2, yn gweithio mewn 'gweithgynhyrchu darbodus' (strategaeth sy'n ceisio dileu gwastraff yn ystod y broses weithgynhyrchu), ddefnyddio eu gwybodaeth a'u medrau newydd yn effeithiol iawn yn eu rolau arwain newydd i gynyddu cynhyrchiad a chynhyrchiant trwy leihau gwastraff o bob math.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn deall gofynion eu rhaglenni unigol ac yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu. Mae safon y gwaith ym mhortffolios Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol (CGC) dysgwyr yn dda ar y cyfan ac mae'n cynnwys ystod eang o dystiolaeth. Mae gwaith dysgwyr wedi'i gyflwyno'n dda ac yn gywir ar y cyfan, ac mae sillafu, atalnodi a gramadeg cywir sy'n briodol i'w lefel astudio. Mae gwaith ysgrifenedig dysgwyr yn dangos llawer o enghreifftiau o ramadeg ac atalnodi gwell o ganlyniad i'r defnydd cyson o gynllun marcio, gan aseswyr, sy'n rhoi gwybodaeth fanwl iddynt am y camgymeriadau a wnânt.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn dangos medrau siarad a gwrando da. Maent yn trafod amrywiaeth o faterion cyfoes gyda'u hymgynghorwyr hyfforddi. Yn gyffredinol, mae dysgwyr yn hyderus ac yn gallu mynegi eu barn yn dda.

At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu eu medrau sillafu a gramadeg yn dda iawn.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn defnyddio ystod dda o eirfa, sy'n aml yn benodol i'w maes dysgu, ac maent yn mynegi eu hunain yn dda ar lafar ac yn eu gwaith ysgrifenedig.

Mae gwaith ysgrifenedig y rhan fwyaf o ddysgwyr wedi'i gyflwyno'n dda ac yn gywir gyda sillafu, atalnodi a gramadeg cywir. Mae dysgwyr yn gwybod gwerth datblygu

medrau llythrennedd a rhifedd da. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwybod faint o gynnydd y maent yn ei wneud a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella.

Yn dibynnu ar eu gallu a'u hasesiad cychwynnol, mae llawer o ddysgwyr yn manteisio ar y cyfle i ennill lefel uwch o gymhwyster Sgiliau Hanfodol Cymru na'r hyn sy'n ofynnol gan eu fframwaith. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif o ddysgwyr yn datblygu eu medrau rhifedd yn ddigon da o fewn eu rhaglenni.

Mae tua hanner y dysgwyr yn cael eu hyfforddi a'u hasesu yn Gymraeg pan fo'n briodol. Mae llawer o ddysgwyr yn sgwrsio yn Gymraeg yn ystod gweithgareddau yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith. Mewn rhai achosion, mae dysgwyr yn cwblhau eu e-bortffolios (electronig) yn Gymraeg. Mewn llawer o'r sesiynau a arsylwyd, dangosodd dysgwyr fedrau dwyieithog da. Mae dysgwyr yn datblygu ac yn gwneud defnydd da o eiriau ac ymadroddion sy'n alwedigaethol berthnasol. Mae dysgwyr sy'n meddu ar fedrau Cymraeg yn y grŵp dysgu yn helpu i gynorthwyo'r dysgwyr y mae eu cymhwysedd dwyieithog yn gyfyngedig. Mae dysgwyr Cymraeg mamiaith yn gwella'u medrau llafar ac ysgrifenedig Saesneg mewn sesiynau dwyieithog hefyd.

At ei gilydd, mae dysgwyr yn dangos lefelau da o frwdfrydedd ac maent wedi'u cymell yn dda i ddatblygu eu dysgu, ennill eu cymwysterau a gwella'u rhagolygon gyrfa.

**Lles: Da**

Mae pob dysgwr yn teimlo'n ddiogel, yn y gweithle ac yn eu hamgylchedd hyfforddi. Mae pob dysgwr yn ymwybodol o weithdrefnau'r consortiwm ar gyfer adrodd am unrhyw faterion personol neu faterion yn ymwneud â'u hyfforddiant. Fodd bynnag, o'u holi, ychydig iawn o ddysgwyr oedd yn gallu sôn am y gweithdrefnau sydd ar waith yn eu gweithle.

Mae bron pob dysgwr yn meddu ar wybodaeth dda am iechyd a diogelwch a bwyta'n iach ac maent yn cadarnhau lefel eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r meysydd hyn yn rheolaidd mewn trafodaethau gyda hyfforddwyr a chyflogwyr yn ystod eu hadolygiadau.

Mae bron pob dysgwr yn hapus â'u rhaglen hyfforddi ac maent yn teimlo eu bod yn defnyddio'u hamser yn effeithiol. Maent yn datblygu'r medrau sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth a datblygiad personol yn y dyfodol yn dda.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cymryd rhan yn frwdfrydig yn eu sesiynau dysgu. Maent yn canolbwyntio'n dda ac yn awyddus i ddysgu, ac yn ymddwyn mewn modd proffesiynol. Maent yn mynd i'r afael â thasgau ymarferol yn frwdfrydig ac yn cynorthwyo'i gilydd yn dda. Mae llawer o ddysgwyr yn aml yn cymryd perchnogaeth o'u dysgu ac yn trafod eu targedau eu hunain gyda'u hathrawon a'u haseswyr.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mwynhau eu rhaglen hyfforddi ac yn dangos lefelau uchel iawn o gymhelliant a brwdfrydedd yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith. Yn y rhan fwyaf o achosion, caiff eu profiad dysgu effaith gadarnhaol ar eu medrau yn y gweithle. Mae bron pob dysgwr yn datblygu ac yn cynnal perthnasoedd gweithio da

gyda'u staff hyfforddi a'u cyfoedion. At ei gilydd, mae cyfraddau presenoldeb dysgwyr yn dda.

Mae llawer o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn digwyddiadau codi arian a digwyddiadau cymunedol lleol. Er enghraifft, mae prentisiaid yn Llywodraeth Cymru wedi cymryd rhan mewn cynllun gwirfoddol codi sbwriel mewn partneriaeth â gwasanaeth adsefydlu lleol ar gyfer cyffuriau ac alcohol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae'r consortiwm yn cyflwyno ystod o raglenni hyfforddi sy'n bodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned yn dda dros ardal ddaearyddol fawr. Mae'n cynnig cyfleoedd dilyniant da i lefelau uwch o hyfforddiant, ac mae hyfforddiant lefelau 4 a 5 ar gael ym mwyafrif y meysydd dysgu. Mae'r consortiwm wedi cynyddu nifer y llwybrau dysgu sydd ar gael ac mae'n cynnwys hyfforddiant arbenigol ar gyfer y diwydiant ynni. Cyflwynir y rhaglenni arloesol hyn ar gyfer tri phrif gyflogwr cenedlaethol. Mae'r hyfforddiant ychwanegol a ddarperir gan gyflogwyr yn rhoi cyfleoedd gwell i ddysgwyr ar gyfer datblygu gyrfa yn ystod eu cyfnod gyda'r consortiwm.

Mae gan y consortiwm strategaeth llythrennedd a rhifedd gynhwysfawr, a gweithdrefnau sy'n gosod agenda glir ar gyfer gwella medrau pob dysgwr. Mae'n defnyddio ystod eang o adnoddau o ansawdd uchel ar draws partneriaid y consortiwm. Mae adnoddau dysgu electronig da iawn ar gael i staff a dysgwyr fel ei gilydd. Mae'r rhain yn cynnwys ysgol targed ar gyfer medrau llythrennedd, cwestiynau cyffredin a chynllun marcio cyffredin. Mae'r consortiwm wedi hyfforddi llawer o diwtoriaid ac aseswyr mewn cyflwyno hyfforddiant llythrennedd a rhifedd.

Mae aseswyr a thiwtoriaid yn defnyddio deilliannau asesu cychwynnol yn effeithiol i gynllunio hyfforddiant a nodi cymorth ychwanegol. Maent yn integreiddio cyflwyno medrau hanfodol yn dda iawn mewn adolygiadau a hyfforddiant. Mae'r deunyddiau dysgu yn cynnwys ffocws cryf iawn ar y maes galwedigaethol.

Mae'r consortiwm yn rhagweithiol iawn o ran hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'i diwylliant. Mae'n hyrwyddo hyfforddiant ac asesu dwyieithog yn dda iawn ar draws yr holl feysydd dysgu. Mae staff hyfforddi yn rhoi cyfleoedd da iawn i ddysgwyr ddatblygu eu medrau Cymraeg. Mae llawer o staff hyfforddi ar draws y consortiwm yn defnyddio eu medrau Cymraeg yn dda i roi cymorth effeithiol i ddysgwyr. Mae'r consortiwm wedi datblygu ystod gynhwysfawr o ddeunyddiau addysgu, hyfforddi ac asesu yn Gymraeg. Defnyddir y deunyddiau hyn ym mhob maes dysgu, ac o ganlyniad, mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da wrth gyflawni eu fframweithiau hyfforddi. Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud defnydd da o safle Moodle y consortiwm i ddefnyddio adnoddau cynhwysfawr ar gyfer deunyddiau Cymraeg.

Mae'r consortiwm yn dangos ymrwymiad cryf i Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang (ADCDFE) ac mae wedi cyhoeddi datganiad ADCDFE strategol yn ddiweddar. Mae grŵp ADCDFE yn weithgar iawn o ran

cynorthwyo ag ymgorffori ADCDFE yn effeithiol mewn rhaglenni hyfforddi. Mae holl bartneriaid y consortiwm wedi penodi hyrwyddwyr ADCDFE.

**Addysgu: Da**

At ei gilydd, mae safon yr addysgu, yr hyfforddi a'r asesu'n dda, ac yn rhagorol mewn rhai achosion. Mae ymgynghorwyr hyfforddi ar draws y consortiwm yn meddu ar gyfoeth o wybodaeth a phrofiad galwedigaethol cyfoes. Defnyddiant eu harbenigedd a'u gwybodaeth broffesiynol yn dda i herio dysgwyr i gyflawni safonau uchel o fedrau ymarferol sy'n briodol i rôl y swydd. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel iawn o'u dysgwyr ac maent wedi ymrwymo i wella medrau ymarferol dysgwyr a'u medrau sy'n seiliedig ar wybodaeth.

Mae ymgynghorwyr hyfforddi a thiwtoriaid yn cynllunio a pharatoi sesiynau yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith yn dda. Mae ymgynghorwyr hyfforddi yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu a hyfforddi mewn sesiynau yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith. Defnyddiant ystod eang o dechnegau holi ac mae sesiynau yn cynnwys cymysgedd da o weithgarwch gan ddysgwyr a mewnbwn gan diwtoriaid.

Mae bron pob hyfforddwr yn integreiddio medrau llythrennedd a rhifedd mewn sesiynau hyfforddiant galwedigaethol yn dda. Pan nad yw dysgwyr yn awyddus i gymryd rhan yn y sesiynau hyn, mae aseswyr yn fedrus iawn yn annog ac yn esbonio i ddysgwyr pam mae'r medrau hyn yn bwysig.

Ym mhortffolios CGC a gwaith aseiniadau dysgwyr, mae ymgynghorwyr hyfforddi yn cywiro camgymeriadau sillafu a gramadeg. Maent yn rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig adeiladol i ddangos i ddysgwyr sut gallant wella.

Mae staff hyfforddi yn asesu gwaith dysgwyr yn rheolaidd ac yn drylwyr, gan ddefnyddio ystod dda o strategaethau asesu yn y gweithle. Maent yn rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig da i ddysgwyr. Mae staff hyfforddi yn meddu ar wybodaeth a phrofiad galwedigaethol priodol a chyfoes. Maent yn cynllunio asesiadau yn dda ar gyfer y dyfodol i ystyried patrymau a sifftiau gwaith dysgwyr.

Mae ymgynghorwyr hyfforddi yn adolygu cynnydd dysgwyr yn rheolaidd. Mae aseswyr a dysgwyr yn cytuno ac yn gosod targedau yn effeithiol i fodloni nodau cymhwyster dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw targedau bob amser yn ddigon penodol ar gyfer llythrennedd a rhifedd. Mae bron pob asesydd yn sicrhau bod dysgwyr yn gwneud cynnydd da a'u bod ar y trywydd iawn i gyflawni.

Mae gan aseswyr berthynas dda iawn â'u dysgwyr a'u cyflogwyr. Maent yn deall anghenion gwahanol y dysgwyr ac yn ymateb yn dda iddynt.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

At ei gilydd, mae'r consortiwm yn rhoi cymorth, gofal ac arweiniad da i ddysgwyr. Mae'n rhannu arfer dda ar draws holl aelodau'r consortiwm yn effeithiol.

Mae pob partner yn hyrwyddo iechyd a lles i safon uchel. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid ac aseswyr yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac yn rhoi lefelau da iawn o

gymorth unigol iddynt. Mae staff hyfforddi a dysgwyr yn trafod materion pwysig yn rheolaidd fel cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, iechyd a diogelwch ac iechyd emosiynol yn dda mewn sesiynau hyfforddi ac adolygiadau.

Mae'r consortiwm yn darparu adnoddau o ansawdd da, gan roi cyngor cyffredinol ar destunau fel bwyta'n iach a rhoi'r gorau i ysmygu i gynorthwyo dysgwyr yn dda. Mae'r consortiwm wedi datblygu taflenni arweiniad galwedigaethol penodol defnyddiol hefyd, fel 'gweithio gydag asbestos' ar gyfer prentisiaid adeiladu neu 'ymwybyddiaeth o ddermatitis' ar gyfer pobl sy'n trin gwallt, sy'n cynnig cyngor ac arweiniad defnyddiol.

Mae partneriaid yn rhoi cyngor ac arweiniad priodol i ddysgwyr cyn iddynt ddechrau eu hyfforddiant. Maent yn gwneud yn siŵr bod rhaglenni'n gweddu'n dda i ddyheadau gyrfa ac anghenion dysgwyr. Mae'r broses ymsefydlu yn cynnig cyflwyniad strwythuredig i ddysgu.

Mae gan y consortiwm bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu.

Mae gan y consortiwm fecanweithiau cymorth effeithiol ar waith i gynorthwyo dysgwyr sydd ag ystod o anghenion dysgu ychwanegol. Mae'n cyflogi tiwtor cymhellol sy'n darparu lefelau da iawn o gymorth i ddysgwyr ag anghenion ychwanegol, er enghraifft rheoli dicter a chamddefnyddio sylweddau. Mae staff hyfforddi yn gwahodd dysgwyr i nodi unrhyw anghenion ychwanegol ehangach yn ystod y broses recriwtio ac ymsefydlu ac yn cyfeirio'r dysgwyr hynny ag anghenion canfyddadwy at arbenigwyr ar gyfer sgrinio a chymorth. Mae'r consortiwm yn darparu hyfforddiant penodol i rai ymgynghorwyr hyfforddi i'w galluogi i gynorthwyo dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r consortiwm yn cysylltu'n dda ag asiantaethau allanol i ychwanegu at y cymorth hwn pan fydd angen ymyrraeth arbenigol ychwanegol ar ddysgwyr i sicrhau eu lles.

**Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae'r consortiwm yn mynd ati i hyrwyddo ac atgyfnerthu ethos o gynwysoldeb, cydraddoldeb ac amrywiaeth i bob dysgwr, beth bynnag fo'i ddysgu blaenorol, ei amgylchiadau personol neu'i gefndir. Mae gan y consortiwm ystod gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n cefnogi ei nodau ac yn cadarnhau ei ymrwymiad i atal pob math o wahaniaethu ac aflonyddwch.

Mae staff hyfforddi yn hyrwyddo cynwysoldeb cymdeithasol yn dda ac mae'r consortiwm yn darparu mynediad agored i'r cwricwlwm i ddysgwyr o bob cefndir. Mae'r consortiwm wedi ymrwymo'n gryf iawn i gydraddoldeb ac mae'n herio pob math o wahaniaethu yn effeithiol.

At ei gilydd, mae safon gweithdai ymarferol i ffwrdd o'r gwaith ac ystafelloedd dosbarth ar draws y consortiwm yn uchel iawn ac yn bodloni anghenion dysgwyr yn dda. Mae holl adeiladau'r consortiwm ar gyfer hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith o leiaf yn dda ac yn aml iawn yn rhagorol. Er enghraifft, gall llawer o ddysgwyr trin gwallt ddefnyddio salon a weithredir yn fasnachol a gall dysgwyr peirianneg pŵer trydanol a llawer o ddysgwyr arlwyo fanteisio ar adnoddau hyfforddiant o ansawdd uchel iawn.

Mae'r consortiwm wedi gwneud gwelliannau sylweddol i'w adeiladau, yn arbennig ar safle'r consortiwm yn Llangefni. Ar y safle hwn, mae'r consortiwm wedi rhoi cyfleusterau dysgu cyfoes a rhagorol o safon diwydiant yn lle mwyafrif yr hen adeiladau. Mae'r adnoddau newydd hyn yn cynnwys canolfan technoleg ac adeiladu, cyfleusterau peiriannau trwm, hyfforddiant moduron ysgafn a thrwm, ac ystafell electroneg gyda chyfleusterau telathrebu i alluogi addysgu o bell oddi ar y safle. Mae partneriaid y consortiwm yn sicrhau bod dysgwyr sy'n dysgu yn y gwaith yn cael cyfle da i fanteisio ar y cyfleusterau rhagorol hyn.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Rhagorol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Ers ffurfio'r consortiwm, mae uwch reolwyr wedi darparu arweinyddiaeth gref a chyfeiriad strategol clir iawn. Mae uwch reolwyr wedi gwneud cynnydd rhagorol yn datblygu a sefydlu set o werthoedd clir a nodau strategol ar gyfer cyflwyno ei gontract dysgu yn y gwaith. Mae'r holl reolwyr ar draws y consortiwm yn cyfathrebu'n rhagorol. O ganlyniad, mae staff yn glir ynglŷn â'u rolau a'u cyfrifoldebau a'r rôl ganolog sydd ganddynt wrth wella profiad y dysgwyr.

Mae uwch reolwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i wneud yn siŵr bod holl aelodau'r consortiwm yn bartneriaid cyfartal ac yn gallu cydweithio â'i gilydd. Mae ganddynt ethos ar y cyd o ymddiriedaeth a chymorth, cydweithio a gweithio mewn partneriaeth. O ganlyniad i weithio mewn partneriaeth yn gryf, mae'r consortiwm wedi cynyddu nifer y llwybrau hyfforddiant sydd ar gael ac wedi gwella cyfleoedd dilyniant i ddysgwyr.

Mae uwch staff Grŵp Llandrillo Menai yn adrodd yn rheolaidd i gorff llywodraethol Grŵp Llandrillo Menai ar berfformiad dysgu yn y gwaith.

Mae'r consortiwm yn gwneud defnydd effeithiol o ddata meincnodi ac yn gosod targedau perfformiad heriol ar gyfer yr holl raglenni, wedi'u seilio ar berfformiad hanesyddol, meincnodau cenedlaethol a thargedau cyffredinol y consortiwm. Mae uwch reolwyr yn monitro ac yn adolygu perfformiad yn erbyn y targedau hyn ac yn ei gymharu yn ôl meincnodau cenedlaethol a pherfformiad consortia hyfforddiant eraill. Mae hyn wedi helpu i wella deilliannau, a sefydlu mwy o ehangder yn y cwricwlwm a lefelau uwch o ymgysylltu â chyflogwyr.

Mae pob partner yn defnyddio strategaeth a gweithdrefnau rheoli perfformiad cadarn y consortiwm yn dda i adolygu perfformiad athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr. Maent yn rhoi lefelau da iawn o gymorth i staff i'w helpu i wella'u perfformiad.

Mae rheolwyr a staff y consortiwm yn mynychu ystod gynhwysfawr o gyfarfodydd rheolaidd. Mae'r cyfarfodydd hyn yn effeithiol o ran rhannu gwybodaeth rhwng partneriaid a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff am ystod eang o arferion a datblygiadau.

Mae'r consortiwm yn weithgar o ran bodloni agenda Llywodraeth Cymru ar gyfer trawsnewid addysg a hyfforddiant. Mae rheolwyr a staff ar draws y consortiwm yn

cymryd rhan mewn gweithgareddau lleol a chenedlaethol sy'n cynnwys y rhwydwaith 14-19 lleol a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (FfHCC). Mae'r consortiwm yn cyfrannu'n dda at ostwng lefel y dysgwyr nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NACH) yn yr ardal leol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan y consortiwm ddull hunanasesu effeithiol. Yn dilyn yr uno, mae prosesau hunanasesu wedi cael eu hailstrwythuro a'u mireinio i safoni a gwella systemau a gweithdrefnau. Mae'r prosesau newydd hyn wedi ysgogi gwelliant yng nghyrhaeddiad dysgwyr a chysondeb cynyddol ym mherfformiad rhaglenni dysgu ar draws y consortiwm.

Mae'r broses hunanasesu yn cynnwys holl bartneriaid y consortiwm, isgontractwyr a'u staff. Mae'r adroddiad hunanasesu diweddaraf yn defnyddio tystiolaeth o ystod eang o ffynonellau, gan gynnwys safbwyntiau dysgwyr a phrosesau arolygu mewnol, ac mae'n cyfrannu'n effeithiol at gynllun datblygu ansawdd y consortiwm.

At ei gilydd, mae'r consortiwm yn gwneud defnydd da o ganlyniadau Llais y Dysgwr (LID). Mae rheolwyr yn defnyddio ystod eang o ddulliau i gasglu gwybodaeth am safbwyntiau dysgwyr, gan gynnwys holiadur Llais y Dysgwr yr Adran Addysg a Sgiliau, arolwg mewnol manylach ac adborth gan gynrychiolwyr dysgwyr a dysgwyr unigol. Fodd bynnag, nid yw pob dysgwr yn ymwybodol o unrhyw welliannau a wnaed na chamau a gymerwyd o ganlyniad i arolwg Llais y Dysgwr.

Mae gan y consortiwm grŵp ansawdd effeithiol sy'n cynnwys uwch gynrychiolwyr o bob un o'r partneriaid. Mae'r grŵp yn cyfarfod yn rheolaidd, yn ystyried ystod o eitemau parhaol ac yn dilyn cylch ansawdd blynyddol.

Mae'r grŵp ansawdd wedi datblygu dull cyffredin ar gyfer arsylwi addysgu, hyfforddi ac asesu, sy'n cael ei ddilyn gan bob partner. Mae hyn yn cynnwys defnyddio ffurflen safonol, gan sicrhau bod arsyllwyr yn canolbwyntio ar safonau, hyfforddiant a themâu trawsbynciol. Mae pob partner yn cynnal ei arsylwadau ei hun, y mae cymheiriaid ar draws y bartneriaeth yn eu safoni yn ddiweddarach.

Mae'r grŵp ansawdd yn arwain ar arolygiad ansawdd mewnol blynyddol, gan ddefnyddio deilliannau arsylwadau i sefydlu trywyddau ymholi. Mae'r dull hwn, er enghraifft, wedi bod yn effeithiol wrth nodi llythrennedd yn faes i'w ddatblygu, sydd yn ei dro wedi arwain at ganolbwyntio ar fedrau hanfodol yn y gynhadledd flynyddol ar ddatblygiad staff, gan arwain at gynnydd yn hyder a gallu staff i ddatblygu medrau llythrennedd hyfforddeion.

Mae'r grŵp ansawdd yn monitro data perfformiad pob partner fel rhan o'i gyfarfodydd rheolaidd ac mae'n cynnal dadansoddiad trylwyr o ystadegau cwblhau.

Caiff rhaglenni sy'n tanberfformio eu nodi a'u cefnogi gan archwiliad ansawdd 'gwiriad iechyd'. Mae'r gwiriad iechyd yn ddull effeithiol ar gyfer rhoi cymorth pwrpasol i dimau rhaglen. Mae pob un o'r rhaglenni a nodwyd ym Mawrth 2013 ar gyfer gwiriadau iechyd wedi dangos perfformiad gwell.

Mae'r consortiwm wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiadau blaenorol o bob consortiwm hyfforddiant unigol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

At ei gilydd, mae'r consortiwm yn gweithio mewn partneriaeth yn rhagorol gydag ystod eang o bartneriaid a rhanddeiliaid allweddol. Ceir diwylliant o ddidwylledd a thryloywder yn y berthynas â'i aelodau a'i isgontractwyr. Ynghyd â ffocws clir ar y dysgwr, mae hyn wedi gosod sylfaen ragorol ar gyfer cyflwyno hyfforddiant o ansawdd uchel.

Mae'r consortiwm wedi cael effaith sylweddol ar ddysgwyr. Mae'n cynnig ystod eang o gyfleoedd i ddysgwyr ac mae wedi gwella'r cyfle i ddysgwyr gael hyfforddiant yn lleol trwy ddefnyddio adeiladau a chyfleusterau aelodau'r consortiwm. Mae trosglwyddo dysgwyr rhwng aelodau'r consortiwm yn eu galluogi i gwblhau pob elfen o'u hyfforddiant.

Mae gan y consortiwm berthynas ragorol gyda sefydliadau lleol a chenedlaethol fel Cymunedau yn Gyntaf, Cyfiawnder Ieuenctid, FfHCC, Llywodraeth Cymru, cyflogwyr ac ysgolion. Mae'r perthnasoedd hyn yn helpu wrth ddatblygu cwricwlwm y consortiwm ac i ddarparu cyfleoedd ychwanegol i ddysgwyr.

Mae gan y consortiwm berthnasoedd effeithiol iawn gydag ystod eang o gyflogwyr, gan gynnwys cwmnïau mawr iawn a mentrau bach a chanolig. Mae'r cwmnïau hyn yn rhoi cyfleoedd rhagorol i ddysgwyr ddatblygu eu cymhwysedd ymarferol a'u gwybodaeth am theori, yn enwedig yn y gweithle.

Mae'r holl hyfforddiant a gyflwynir gan y consortiwm yn bodloni anghenion busnes y cyflogwyr yn dda. Ceir enghreifftiau rhagorol o hyfforddiant pwrpasol ar gyfer cwmnïau cenedlaethol o fewn y diwydiannau pŵer a thwristiaeth, er enghraifft 'hyfforddiant gwifrwyr', sef cynnal a chadw llinellau pŵer trydanol ar gyfer cwmni National Power, a chynnal a chadw tyrbinau gwynt ar gyfer cwmni ynni adnewyddadwy cenedlaethol.

**Rheoli adnoddau: Rhagorol**

At ei gilydd, mae'r consortiwm yn rheoli ac yn defnyddio'i staff a'i adnoddau'n dda iawn. Mae pob un o'r hyfforddwyr a'r aseswyr yn meddu ar lefelau uchel iawn o gymhwysedd galwedigaethol ac mae llawer ohonynt yn meddu ar brofiad diwydiannol perthnasol sy'n aml yn gyfoes. Mae'r rhan fwyaf o staff yn meddu ar gymwysterau addysgu, hyfforddi, asesu a gwirio ffurfiol.

Mae'r consortiwm yn effeithiol iawn yn nodi anghenion datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) ei staff. Mae rheolwyr yn blaenoriaethu cyfleoedd hyfforddi yn dda iawn i fodloni amcanion strategol y consortiwm.

Mae hyfforddiant staff yn rhoi ffocws clir ar gyflawni rhagoriaeth mewn addysgu a dysgu. Fel rhan o weithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus datblygedig y consortiwm, mae pedwar aelod o'r tîm dysgu yn y gwaith wedi cymryd rhan yng nghynllun hyfforddiant Sabothol Cymru i ddatblygu eu medrau iaith ymhellach.

Mae'r consortiwm yn rheoli'r adnoddau sydd ar gael yn dda iawn wrth ddatblygu'r defnydd o dechnoleg, ac mae nifer o brosiectau peilot ar y gweill ar hyn o bryd fel datblygu e-bortffolios a defnyddio llechi electronig. Gall bron pob un o'r dysgwyr a'r staff fanteisio ar ystod eang o adnoddau rhagorol ar gyfer addysgu a hyfforddi.

Mae rheolaeth a chynllunio ariannol yn gryf ac mae rheolwyr wedi dirprwyo cyllidebau a ddefnyddir ganddynt yn briodol i gefnogi cyflwyno'r cwricwlwm. Mae uwch reolwyr yn monitro perfformiad ariannol yn unol â thargedau cyflwyno contractau ac yn ailddyrannu adnoddau'n effeithiol i fodloni anghenion dysgwyr a darparu gwerth am arian.

Caiff dyraniad cyllideb hyfforddiant y consortiwm ei rannu'n effeithiol rhwng partneriaid. Mae hyn wedi datblygu'n dda dros gyfnod ac mae wedi'i seilio ar gydnabod perfformiad hanesyddol, blaenoriaethau cenedlaethol ac adolygu perfformiad presennol yn barhaus.

Mae gan y consortiwm strategaeth ystadau ddiffiniedig ar gyfer ymestyn a gwella'i adeiladau a'i adnoddau. Mae uwch reolwyr yn ystyried y defnydd o gampysau hyfforddiant ac anghenion rhaglenni dysgu yn y gwaith yn ofalus wrth ddatblygu cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Mae partneriaid y consortiwm wedi defnyddio'u cyllidebau cyfalaf yn dda iawn i ddatblygu adeiladau a chyfleusterau da iawn ar gyfer dysgwyr a staff. Mae datblygiadau yn Llangefni, Dolgellau, a chyfleusterau wedi'u hadnewyddu ym Mhenrallt a Llanaelhaearn ar gyfer hyfforddeiaethau, o safon arbennig o uchel. Mae dysgwyr yn y gwaith yn gwneud defnydd da iawn o'r adnoddau hyn bob wythnos. Mae'r rhan fwyaf o adeiladau cyflogwyr yn sicrhau y gall dysgwyr wneud defnydd da o gyfleusterau ac offer o ansawdd uchel i ddatblygu eu medrau galwedigaethol, ac maent yn cynnwys ystafelloedd da ar gyfer hyfforddi, asesu ac adolygiadau.

Mae'r consortiwm yn darparu addysg a hyfforddiant da ar gyfer ei ddysgwyr. Mae'r consortiwm yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Boddhad dysgwyr**

At ei gilydd, mae'r consortiwm yn gwneud defnydd effeithiol o ganlyniadau Llais y Dysgwr (LID). Mae'r consortiwm yn perfformio'n uwch na'r meincnod dysgu yn y gwaith sy'n ymwneud â 'boddhad cyffredinol â'r consortiwm' ac yng nghanfyddiadau dysgwyr sy'n ymwneud â 'disgwyliadau o hyfforddiant.' Mae'r consortiwm yn perfformio'n well na'r meincnod dysgu yn y gwaith ym mhob un o'r demograffegau allweddol hefyd (rhyw, ystodau oedran, cymysgedd ethnig a dysgwyr ag anawsterau dysgu a/neu anableddau) ac yn ôl y math o raglen.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Stephen Davies | Arolygydd Cofnodol |
| Sandra Barnard | Arolygydd Tîm |
| Mark Evans | Arolygydd Tîm |
| Bernard Hayward | Arolygydd Tîm |
| Bernard O'Reilly | Arolygydd Tîm |
| Steve Bell | Arolygydd Tîm |
| Christine Hooper | Arolygydd Tîm |
| Caroline Peek | Arolygydd Cymheiriaid |
| Bridget Moseley | Arolygydd Cymheiriaid |
| Gwyneth Elaine McCallion | Arolygydd Cymheiriaid |
| Vanessa Morgan | Arolygydd Cymheiriaid |
| David Finch | Arolygydd Cymheiriaid |
| Dafydd Evans | Enwebai’r Darparwr |